y GOLEUAD

EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU

yn calonogi

yn ysbrydoli

yn adeiladu

CYFROL CXLVIII RHIF 2 | DYDD GWENER, IONAWR 10, 2020 | Pris 50c

Dathlu'r Nadolig ar hyd y wlad

Capel y Groes, Wrecsam

Gwelwn yma lun rhai o'r plant a gymerodd ran yng Ngwasaneth y bore (Rhagfyr 15ed) yng Nghapel y Groes Ebeneser, Wrecsam.

Bu bwrlwm yr Ŵyl yn amlwg gyda chynulleidfa o bron 250 yn cael bendith, â'r cyfan yng ngofal Ysgol Sul y plant a'r Parchedig Aled Lewis Evans.

Gareth R. Williams

Dolig yng Nghwmpenanner

Dydd Sul, 15fed o Ragfyr, cafwyd gwasanaeth Nadolig yng Nghapel Tŷ Mawr, Cwmpenanner.

Cafodd stori Geni'r Nadolig ei actio gan blant yr Ysgol Sul gyda phobol ifanc a rhai hŷn yn cymeryd rhan. (Gweler y tri gŵr doeth!) Braf oedd gweld y capel yn llawn a'r carolau yn atseinio moliant yr Ŵyl.

Hoffai holl aelodau'r Capel ddymuno y bydd i bawb fwynhau Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd.

Diolch yn fawr iawn i bawb a gymerodd ran ac am y wledd o fwyd ar y diwedd.

Hefyd **Diolch** yn fawr iawn i Siôn Corn am yr anrhegion lu i'r plant.

Alun Jones

Clapham Junction, Llundain

Yma gwelwn blant Ysgol Sul Capel Clapham Junction yn disgwyl yn eiddgar i gymryd rhan yn Nrama'r Geni ar Fore Sul, Rhagfyr 8fed. Dymunwyd Nadolig llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl aelodau.

Hywel Thomas (Ysgrifennydd

• **Y Ffordd** … t. 2 • **Y Gwirionedd** … t. 7 • **Dathlu** … t. 8 •